## Toriadau Tocio


Dylid gwneud toriadau tocio, pan fo hynny'n bosib, ar y ffwrch neu wrth y brif goes i osgoi bonion, all farw'n ôl, a chynhyrchu ad-dyfiant trwchus o sbrigau. Dylid cael gwared ar ganghennau mawr yn unig os nad oes modd osgoi hyn, a dylid cadw'r clwyfau sy'n deillio o'r broses mor fychain â phosib. Dylid osgoi gwneud toriadau i mewn i bren byw wrth gael gwared ar ganghennau a bonion marw. Pan fo coler ar gangen dylai'r toriad olaf (ffigur 1) fod ychydig y tu allan iddo. Pan nad oes coler dylai ongl y toriad fod yn ddrychlun o'r rhych ar rysgl y gangen.

Mae "brig-docio" ac "uwch haenu" yn dermau gaiff eu defnyddio'n rheolaidd mewn ymarferion tocio coed. Caiff y prosesau hyn eu gweithredu heb ddefnyddio'r dulliau fanylir arnynt uchod a dylid, yn gyffredinol, eu hystyried yn ymarferion gwael oherwydd eu natur niweidiol, sy'n arwain yn aml at bydredd sylweddol neu gamweithrediad o fewn y goeden.

Dylid tocio â naill ai llawlif neu lif gadwyn gam wrth gam er mwyn osgoi hollti'r meinweoedd a gwneud niwed anadferadwy i'r goeden.

**Noder:** Gall saernïaeth llif gadwyn wneud pennu lleoliad y toriad olaf yn anodd, yn arbennig ar frigyn sydd â diamedr bach, ac mae'n well defnyddio llif law.

A fyddech gystal â nodi, os gwelwch yn dda, y dylid cymryd gofal arbennig rhwng Ebrill ac Awst i beidio â tharfu ar nythod adar gwyllt gaiff eu gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Caiff ceubrennau a holltau mewn coed eu defnyddio'n aml fel clwydau gan ystlumod a chaiff y rhain eto eu gwarchod dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd Naturiol 1994. Felly dylid cymryd gofal wrth weithio ar goed i sicrhau nad oes ystlumod yn bresennol i osgoi mynd yn groes i'r ddeddfwriaeth uchod. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Chyngor Cefn Gwlad Cymru ar (01437) 766646.




**Ffigur 1. Toriadau Terfynol**
**Nid** yw hi'n angenrheidiol peintio'r bonion a dorrwyd â seliwr sy'n dal dŵr, ond mae'n bwysig gwneud toriad glân gan ddefnyddio offer miniog.

Mae gweithio ar goed a defnyddio llifiau cadwyn yn weithdrefnau peryglus. Peidiwch â rhoi cynnig ar y naill na'r llall os nad oes gennych brofiad. **Cyflogwch gontractwr sydd â chymwysterau priodol ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus llawn.**

## Gwybodaeth bellach

Am fwy o wybodaeth, a fyddech gystal, os gwelwch yn dda, â chysylltu â naill ai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro neu Gyngor Sir Penfro.


Swyddog Coed,
Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro,
Parc Llanion
Doc Penfro
Sir Benfro
SA72 6DY
Ffôn: 0845 345 7275
Ffacs: 01646 689076
E-bost: info@pembrokeshirecoast.org.uk

Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
Pembrokeshire Coast National Park

Uned Ansawdd Sir Benfro
Cyngor Sir Penfro
Neuadd y Sir
Hwlffordd
Sir Benfro
SA61 1TP
Ffôn: 01437 764551
Ffacs: 01437 776004
E-bost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk



**Paratowyd y daflen hon ar y cyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro.**


*Teneuo'r Corun, Dinbych-y-pysgod*

# Tocio Coed

Cyngor ar ofalu am goed yn gywir




PAMFFLED CYNGOR AR GOED

# Termau Tocio

## Tocio
Mae coed yn cael eu tocio am amryw o resymau ac mae gwahanol fathau o docio'n briodol i wahanol sefyllfaoedd. Gall rhai coed fod yn sensitif iawn i docio: mae'n rhaid ystyried ystod o ffactorau megis oed, rhywogaeth ac amser y flwyddyn. Os oes gennych unrhyw amheuon cysylltwch â thyfwr coed cymwys (mae rhestrau ar gael oddi wrth Barc Arfordir Cenedlaethol Sir Benfro a Chyngor Sir Penfro).

## Tocio Ffurfiannol
Caiff hyn ei wneud i goed ifanc a gall leihau'r angen am docio sylweddol adeg canol oed ac aeddfedrwydd. Dylid cael gwared ar sbrigau arweiniol eilradd diangen a ffyrchau, allai fod yn wan, ac a allai fethu dan amodau tywydd anffafriol e.e. gwynt cryf neu eira.







## Codi'r Corun
Mae codi'r corun yn broses sy'n golygu cael gwared o'r canghennau isaf i roi taldra clir uwchlaw lefel y ddaear, a dylid cyflawni hyn drwy naill ai gael gwared ar y canghennau cyfan neu'r rhannau hynny'n unig sy'n estyn islaw y taldra clir sy'n ddymunol. Dylid cadw o leiaf ddwy ran o dair o'r corun. Gall hyn fod yn ddull effeithiol o wella golygfa dan y goeden, yn arbennig gyda chonifferau.







## Tocbrennu
Golyga tocbrennu gael gwared o'r holl ganghennau, ond ni ddylid defnyddio'r dull hwn ar goed mawr sydd heb eu tocbrennu o'r blaen, am fod y clwyfau mawr yn arwain at bydru difrifol mewn coed aeddfed a'r rheiny sy'n aeddfedu. Gall tocio sylweddol ladd rhai mathau o goed tra bydd eraill yn cael eu symbylu i gynhyrchu ad-dyfiant toreithiog o sbrigau trwchus iawn o bob clwyf. Yn draddodiadol rheolwyd coed blannwyd ar strydoedd drwy gyfrwng y dull hwn.








## Teneuo'r Corun
Golyga teneuo'r corun gael gwared ar gyfran o dyfiant eilradd a bychan o ganghennau byw y corun o'r naill ben i'r llall i gynhyrchu trwch cyfartal o ddeiliach o amgylch ffurfiant cangen sy'n gytbwys ac wedi'i gwasgaru'n dda. Gan amlaf gweithredir hyn ar goed collddail yn unig.

Dylid cael gwared ar ganghennau sy'n croesi, sy'n wan, sydd wedi'u dyblygu, sy'n farw a'r rheiny sydd wedi'u niweidio. Dylid nodi canran y corun y ceir gwared ohono, ond yn gyffredinol ni ddylid cael gwared ar fwy na 30% o arwynebedd y gorchudd gwreiddiol o ddail.








## Lleihau ac/neu Ail-lunio'r Corun
Dylid mynd i'r afael â lleihau a/neu ail-lunio'r corun drwy dorri'n ôl i flaguryn neu gangen ochr er mwyn cadw llinell gangen lefn heb adael bonion. Dylai'r holl doriadau gael eu gwneud ychydig y tu allan i linell rhych rhysgl y gangen a choler cangen y brigyn sy'n cael ei gadw (gweler y diagram dros y dudalen). Ni ddylid lleihau'r corun yn sylweddol iawn yn ystod tymor tyfiant unigol gan y gallai amharu ar amddiffynfeydd y goeden yn erbyn afiechydon a phydredd. Fel arfer, nid yw'r lleihad yn fwy na 25% o arwynebedd y corun.

Dylid ystyried ail-lunio fel gweithred 'unwaith yn unig' i wneud coeden yn ddiogel neu i'w dwyn i gyflwr neu siâp dymunol.









*Codi'r Corun, Saundersfoot*